**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024.

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
09 Gorffennaf 2024

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024 (‘y Rheoliadau’) yn diwygio’r rhestr o a awdurdodau Cymreig perthnasol yn Rhan 2 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Economi Ddigidol (‘Deddf 2017’) er mwyn ychwanegu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (‘y Comisiwn’) a dileu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (‘CCAUC’).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am nodi bod y Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 2017.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae’r pwerau sy’n galluogi i’r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi’u cynnwys yn adran 56(6) o Ddeddf 2017 sy’n cynnwys pŵer datganedig i Weinidogion Cymru ddiwygio’r rhestr o awdurdodau Cymreig perthnasol yn Atodlen 8 o’r Ddeddf honno.

Mae adran 56(7) o Ddeddf 2017 yn darparu mai dim ond os bodlonir yr amodau yn adran 56(7) ac (8) y caiff Rheoliadau sy’n cael eu gwneud o dan is-adran (6) ychwanegu cofnod sy’n ymwneud â person neu ddisgrifiad o berson at Atodlen 8.

Mae’r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn rhinwedd adran 62(6) o Ddeddf 2017.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a byddant yn dod i rym ar 1 Awst 2024.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Sefydlwyd y Comisiwn gan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (‘Deddf 2022’) (fel y’i cychwynnwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022). Mae adran 23 o Ddeddf 2022 yn diddymu CCAUC.

Ar hyn o bryd, mae Deddf 2017 yn cynnwys cyfeiriadau at CCAUC mewn perthynas â’r darpariaethau o ran gwrthsefyll twyll yn erbyn y sector cyhoeddus. Mae’r rheoliadau yn darparu ar gyfer tynnu’r cyfeiriad at CCAUC a rhoi’r Comisiwn yn ei le yn y rhestr o bersonau penodedig yn Rhan 2 o Atodlen 8, fel canlyniad i’r newidiadau a wneir ar ôl i Ddeddf 2022 ddod i rym.

## 5. Ymgynghori

Yn unol ag adran 56(12) o Ddeddf 2017, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau penodedig a ganlyn:

a) y Comisiynydd Gwybodaeth
b) Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi,
c) pob berson arall sy'n awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â rheoliadau o dan adran 56(6) o Ddeddf 2017
d) y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, a
e) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyffredinol hefyd o 2 Hydref 2023 hyd 22 Rhagfyr 2023, a daeth 4 ymateb i law. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 5 Chwefror 2024.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Gan fod y Rheoliadau hwn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol arnynt yn eu rhinwedd eu hunain. Mae hyn yn gyson â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a wnaed i gyd-fynd â Deddf 2022 adeg ei chyflwyno i'r Senedd yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn, a fyddai'n cynnwys y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.